## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu**

**DYDDIAD: 2 Mawrth 2022**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | **Prosiectau yr 21ain Ganrif Band B a Chyllid Grant Ychwanegol** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi diweddariad ar gynnydd Prosiectau yr 21ain Ganrif Band B a Phrosiectau a gyflenwir gan ddefnyddio Cyllid Grant ychwanegol** |
| **Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | |

**CEFNDIR:**

Roedd Cynllun Amlinellol Strategol yr 21ain Ganrif Band B gwreiddiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2017 yn cynnwys y prosiectau a ganlyn â chyfradd ymyrraeth o 50% o arian cyfatebol - roedd cyfanswm y gost yn £15,300,000

| | |
|---|---|
| £600,000 | Pontrhydfendigaid |
| £1,800,000 | Aberteifi, Cynradd |
| £5,800,000 | Aberteifi, Uwchradd |
| £7,100,000 | Ysgol Ardal Dyffryn Aeron |
| | |
| £15,300,000 | |

Yn sgil sicrhau cyllid grant ychwanegol o 100%, a'r newid yn y gyfradd ymyrraeth, cyflwynwyd Cynllun Amlinellol Strategol diwygiedig a gymeradwywyd yn 2019, a thynnwyd Pontrhydfendigaid o'n rhaglen Band B gan fod £600,000 (cyllid o 100%) wedi'i sicrhau o'r Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau. Yn ychwanegol at hyn, sicrhawyd £1,000,000 hefyd o'r un grant yn gyfraniad tuag at Ysgol Gynradd Aberteifi.

Ar ôl derbyn cadarnhad o'r cyllid grant ychwanegol uchod, codwyd prosiect Canolfan y Môr o Fand C i Fand B a olygai ein bod yn dal i fod o fewn yr amlen arian wreiddiol a gymeradwywyd yn 2017.

| Band B | Cost | Prosiect | Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau | Grant Gofal Plant |
|---|---|---|---|---|
| | £600,000 | Pontrhydfendigaid | £600,000 | |
| £800,000 | £1,800,000 | Aberteifi, Cynradd | £1,000,000 | |
| £5,800,000 | £5,800,000 | Aberteifi, Uwchradd | | |
| £6,312,500 | £7,100,000 | Dyffryn Aeron | | £787,500 |
| £1,273,000 | £1,273,000 | Canolfan y Môr | | |
| £14,185,500 | | | | |

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Ar ôl derbyn pris tendr ar gyfer Canolfan y Môr a diweddaru ein hamcangost ar gyfer Dyffryn Aeron ac Aberteifi, Cynradd, mae'r cyllid y rhagwelir y bydd ei angen fel a ganlyn

| Ysgol | Cost | Cyllid Ychwanegol | Cost sy'n Weddill | Cyfraniad Llywodraeth Cymru | Cyfraniad yr Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberteifi, Uwchradd | £5,800,000 Gwirioneddol | | £5,800,000 | £3,770,000 | £2,030,000 |
| Canolfan y Môr | £1,454,253 Gwirioneddol | | £1,454,253 | £1,090,690 | £363,563 |
| Aberteifi, Cynradd | £3,050,000 Amcangyfrif | £1,000,000 Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau | £2,050,000 | £1,332,500 | £717,500 |
| Dyffryn Aeron | £10,932,950 Amcangyfrif | £787,500 Grant Cyfalaf Gofal Plant | £10,145,450 | £6,594,542 | £3,550,907 |
| | | | £19,449,703 | £12,787,732 | £6,661,970 |

Yn sgil y newid yn y gyfradd ymyrraeth ynghyd â sicrhau'n llwyddiannus gyllid grant ychwanegol, mae cyfraniad cyfan yr Awdurdod Lleol wedi gostwng ers y cais gwreiddiol.

**Ysgol Uwchradd Aberteifi**

Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Gorffennaf 2021 ac mae wedi'i amserlennu i gael ei gwblhau erbyn Ionawr 2023.

**Canolfan y Môr:**

Mae'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Chwefror 2022 ac mae wedi'i amserlennu i gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2022.

**Ysgol Gynradd Aberteifi**

Mae'r tendr i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022 a'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Gorffennaf 2022.

**Dyffryn Aeron**

Cafodd y broses o brynu'r tir ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021 a chymeradwyodd Llywodraeth Cymru yr Achos Amlinellol Strategol ym mis Rhagfyr 2021 ar gyfer amcangost adeiladu o £10,932,950. Mae'r tendr i benodi ymgynghorwyr i ddatblygu'r prosiect i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022. Pan fydd yr ymgynghorwyr wedi datblygu'r cynllun ac y bydd pris tendr terfynol wedi'i dderbyn, bydd yr Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Terfynol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2022. Mae'r ysgol newydd wedi'i hamserlennu i agor erbyn mis Medi 2024.

**Grant Cyfalaf Y Gymraeg**

Cyflwynwyd cais pellach am gyllid grant o 100% i Lywodraeth Cymru am £5,574,290 i gefnogi'r dyheadau a nodir yn nogfen ddrafft Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, a disgwylir i benderfyniad gael ei wneud erbyn diwedd Chwefror 2022.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | |
| | **Integreiddio:** | |
| | **Cydweithio:** | |
| | **Cynnwys:** | |
| | **Atal:** | |

| |
|---|
| **ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** |
| Gwybodaeth |
| **RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Nia James** |
| **Teitl:** | **Rheolwr Corfforaethol - Adnoddau Dysgu** |
| **Dyddiad yr Adroddiad** | **3/2/2022** |
| **Acronymau:** | |